Afasic GeirfA

Syndrom Down

Beth yw Syndrom Down?

Anhwylder genetig yw Syndrom Down sy'n arwain at rai anawsterau corfforol, rhai anawsterau gyda phrosesu a rhai anawsterau dysgu.

Syndrom Down a dysgu lleferydd ac iaith

Ceir rhestr isod o rai o'r problemau a all fod yn gysylltiedig â lleferydd ac iaith unigolion sydd â syndrom Down. Ni chaiff pob un o'r rhain eu nodi ym mhob unigolyn sydd â syndrom Down a bydd eu dylanwad hefyd yn amrywio yn dibynnu ar gyfnod datblygu'r unigolyn, difrifoldeb y broblem ei hun, neu'r ddau.

- Efallai y bydd gan y daflod fwa uchel a'i bod yn gul.
- Efallai y bydd y tafod yn fawr am y lle y mae'n ei lenwi, gyda ffyrfiant isel neu hollt yn y cyhyrau. Efallai y bydd cydsymudiad y tafod, cyflymder a chywirdeb y symudiad yn is, a fydd yn dylanwadu ar y swn a gaiff ei gynhyrchu, eglurder a chyflymder yr ymadroddion.
- Bydd 'clust lud' ysbeidiol yn effeithio ar y clyw is a fydd yn fwy difrifol yn ystod misoedd y gaeaf fel arfer. Efallai y bydd gan rai unigolion sydd â syndrom Down, fel rhai pobl yn gyffredin, nam synhwyraidd-nerfol ar y clyw.
- Bydd plant sydd â syndrom Down yn cael anhawster gyda phrosesau clywol. Dyma'r broses sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r hyn yr ydym yn ei glywed. Ymddengys bod gan blant sydd â syndrom Down broblemau wrth wrando, yn cofio'r hyn a glywir ganddynt ac yn ei ddadgodio neu ei drosi. Mae angen y tair broses i ddysgu iaith a'i defnyddio'n briodol.
- Gall y cof, yn arbennig cofio'r hyn a glywsant, fod yn araf i ddatblygu ac yn aml bydd angen ymarfer er mwyn ei ehangu.
- Bydd anawsterau gyda iaith dderbyngar – cofio a dadgodio'r hyn a glywir ganddynt – yn golygu y bydd yn anoddach iddynt ddeall. Gellir ei gwneud yn haws iddynt ddeall trwy wneud gwybodaeth yn berthnasol i'w sefyllfa hwy yn hytrach na rhywle arall neu amser arall.
- Gall problemau clywed a phroblemau gyda phrosesau clywol hefyd olygu ei bod yn bosibl na fydd unigolyn sydd â syndrom Down yn adnabod newidiadau a wneir i eiriau a fydd yn addasu eu hystyr (morffoleg) fel ychwanegu 'on', 'od', 'ais', ac ati.
- Caiff seinyddiaeth, neu synau lleferydd, yn aml eu cynhyrchu'n llai clir o ganlyniad i strwythur y geg, ffyrfiant is y tafod, yr anawsterau clywed a'r sgiliau prosesu araf.
- Gall deall gwybodaeth haniaethol, iaith gynnil, addasiadau a nodir gan newidiadau mewn pwyslais, tôn, defnydd o resymiad, ensyniadau neu goegni, ac ati fod yn anodd iawn hyd yn oed i oedolion sydd â syndrom Down eu hadnabod.
- Bydd iaith fynegiannol yn arafach i ddatblygu, ac yn yr un modd â dealltwriaeth, bydd yn aml yn rhwym i'r cyd-destun. Bydd y problemau corfforol a'r problemau prosesu yn dylanwadu ar gynnwys ac eglurder. Gellir defnyddio ystumiau a ddyfeisiwyd yn unigol neu arwyddion a ddysgwyd. Efallai y bydd eu hymgais gyntaf i gyfathrebu'n eiriol yn ymgais rhannol i lunio geiriau. Dilynir y rhain gan eiriau clir wedi'u cymysgu gyda mynegiant nad yw'n glir sy'n defnyddio pwyslais, goslef a seibiant fel a geir mewn brawddegau.
- Bydd cyfran ychydig yn fwy o bobl sydd â syndrom Down na'r boblogaeth yn gyffredinol yn dioddef o rywfaint o ddiffyg rhuglder. Bydd hyn yn aml yn ysbeidiol o ran natur ac yn amrywio o ailadrodd geiriau a sillafau yn rhythmig ac yn hamddenol i hepgor rhai synau neu eiriau.
- Bydd ansawdd y llais weithiau'n ymddangos yn ddyfnach mewn tôn ac efallai y bydd goslef y llais yn swnio'n wahanol i'r gwrandäwr.
- Bydd prosesau gweledol pobl sydd â syndrom Down yn aml yn faes o gryfder. Efallai fod hwn yn ymddangos yn faes rhyfedd i'w drafod mewn geirfa yn ymwneud â lleferydd ac iaith ond mae unigolion yn tueddu i ddefnyddio eu cryfder o ran prosesau gweledol i wneud iawn yn rhannol am eu gallu clywol sydd braidd yn wannach. Mae hwn felly'n bwynt dysgu defnyddiol. Fodd bynnag, mae angen sbectol ar gyfran uchel o bobl sydd â syndrom Down a bydd angen gwirio hyn os bydd y cyfrwng hwn yn mynd i gynorthwyo gallu clywol pobl.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn ar unrhyw gyfrif o bob maes y mae'n bosibl bod gan blant ac oedolion sydd â syndrom Down anhawster â hwy. Bydd gan bob un rywfaint o broblem gyda datblygu lleferydd ac iaith. Bydd y graddau a'r math o broblem yn dibynnu ar y plentyn unigol a hefyd y math o ymyrraeth a graddau'r ymyrraeth a all fod yn ddefnyddiol ar unrhyw adeg.

Awgrymiadau ar gyfer deunydd darllen pellach

Cunningham, C (1990), *Down's Syndrome – an Introduction for Parents*, Souvenir Press
Jeffree a McConkey (1976), *Let Me Speak*, Souvenir Press
McConkey, R, a Price, P (1986, diwygiwyd 1998), *Let's Talk,* Souvenir Press
Kumin, L (1994), *Communication Skills in Children with Down's Syndrome*, Woodbine House

Sefydliadau eraill a all helpu

Down's Syndrome Association
Suite 1, 206 Whitchurch Road, Heath, Cardiff. CF14 3JL
ffôn: 029 2052 2511

Royal College of Speech and Language Therapists
2 White Hart Yard, London SE1 1NX
ffôn: 020 7378 1200

Ysgrifennwyd gan Lesley Walter,Cynghorydd Lleferydd ac Iaith, Sefydliad Syndrom Down.